# Prynu a gwerthu - Cynllun gweithgaredd gemau

## Disgrifiad

Tair gêm gorfforol i archwilio'r cysyniadau a'r eirfa a drafodir drwy'r tasgau a'r straeon blaenorol.

## Paratoi

Crëwch un bêl arian i bob dysgwr, trwy beintio'r peli'n aur neu ychwanegu sticer label £1.

Crëwch un bêl nwyddau i bob dysgwr, trwy labelu'r peli ag enw'r eitem fel bara, llaeth, tegan, bar siocled.

Ceisiwch gadw eitemau o fewn ystod gwerth gweddol debyg.

Labelwch ddau fwced neu fasged fawr.

Un â'r label 'Banc' ac un â'r label 'Cymdeithas Adeiladu'.

Labelwch dri thwb bach – 'Cyflogau', 'Nwyddau' a 'Til'

Crëwch y cwrs rhwystrau fel y disgrifir yn nisgrifiad y gweithgaredd.

## Adnoddau

**12 pêl ysgafn** e.e. peli pwll peli, peli sbwng neu beli tenis bwrdd

**6 phêl solet fach** e.e. peli bas, peli tenis

**3 pêl fawr** e.e. peli basged, peli troed

**12 sgitlen neu botel blastig wag**

**2 fwced neu fasged fawr** i daflu'r peli iddyn nhw – â'r labeli 'Banc' a 'Cymdeithas Adeiladu'

**3 thwb bach** – â'r labeli 'Cyflogau', 'Nwyddau' a 'Til'

## Geirfa

Prynu, gwerthu, arian, nwyddau, til, cyfnewid, ennill, gwaith, cyflogau, siop, adneuo, banc, cymdeithas adeiladu.

## Cyflwyniad/Cyd-destun

Amser
20-30 munud

### Cyfnewid bowlio

Rhannwch y dysgwyr yn 3 grŵp. Rhowch 3 pêl fawr (peli troed neu beli fasged) i un grŵp, rhowch 6 phêl fach, solet (peli bas, peli tenis) i un grŵp a rhowch 12 pêl fach, ysgafn i un grŵp (peli pwll peli, peli sbwng neu beli tenis bwrdd). Rhowch y sgitls neu boteli plastig gwag mewn llinell ym mhen pellaf y neuadd. Mae'n rhaid i'r dysgwyr ddefnyddio eu peli i geisio taro'r holl sgitls i lawr. Eglurwch wrth y dysgwyr y bydd y peli mwy yn cael mwy o effaith, ond byddant yn cael llai o gyfleoedd. Bydd y peli ysgafnach yn cael llai o effaith ond mwy o gyfleoedd. Gadewch i'r dysgwyr gyfnewid â'i gilydd cyn iddyn nhw geisio taro'r sgitls i lawr. Er enghraifft, 4 pêl ysgafn am 1 bêl fawr. Gadewch iddyn nhw ailosod ar ôl pob ymgais gyda'u holl beli, a chyfnewid eto.

Amser
20-30 munud

### Prynu a gwerthu peli

Gofynnwch i'r dysgwyr eistedd mewn cylch ar y llawr. Rhowch 1 bêl arian ac 1 bêl nwyddau i bob dysgwr. Un ar y tro, dylai'r dysgwyr ddweud "Rwyf i eisiau prynu..." a dweud beth maen nhw'n ei ddymuno. Mae'r dysgwr sydd â'r eitem honno yn ateb "Rwyf i eisiau gwerthu..." neu "Nid wyf i eisiau gwerthu...". Os ydyw eisiau gwerthu, mae'r cwsmer yn rholio ei bêl arian i'r gwerthwr ac mae'r gwerthwr yn rholio'r bêl nwyddau i'r cwsmer. Gellir ehangu'r gêm gyda pheli o wahanol werthoedd, e.e. 10c, 20c, 50c, pan fydd gan y dysgwyr afael ddigonol ar y cysyniad a gallan nhw ddechrau trafod a dod i gytundeb. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r dysgwyr archwilio mwy o iaith ariannol fel gwerth, tâl ac ati.

Amser
30-40 munud

### Cwrs rhwystrau llif arian

I bwysleisio egwyddorion sylfaenol sut mae arian yn llifo trwy ein cymdeithas, gosodwch gwrs rhwystrau gyda'r safleoedd canlynol, gan osod rhwystrau rhwng pob un fel cydbwyso, neidio, cropian, plethu ac ati.

**Gwaith** – Bydd y dysgwyr yn cwblhau pump tasg ailadroddus fel neidiau sêr ac yn casglu pêl arian.

**Siopa** – Bydd y dysgwyr yn casglu pêl nwyddau ac yn adneuo eu pêl arian yn y twb til.

**Gwerthu** – Bydd y dysgwyr yn gwerthu eu pêl nwyddau i'r athro gan ofyn "hoffech chi brynu fy ...". Bydd yr athro yn cyfnewid am ddwy bêl arian.

**Banc/Cymdeithas Adeiladu** – Bydd yn rhaid i'r dysgwyr daflu eu peli arian o linell wedi'i nodi i un o'r ddau fwced – Un wedi'i labelu'n 'Cymdeithas Adeiladu' a'r llall wedi'i labelu'n 'Banc'. Gellir amseru'r gweithgaredd neu gynnal rasys gyda grŵp bach ar y tro, neu redeg i gael hwyl. Pwysleisiwch yr eirfa drwyddi draw.